

GWASANAETHAU OFFTHALMIG CYFFREDINGOL CYMRU (WGOS)

WGOS 4 – SETIAU DATA AC OFFER

RETINA MEDDYGOL, HYDROCSICLOROCWIN A GLAWCOMA

DYDDIAD GWEITHREDU: 1 EBRILL 2024

I gefnogi'r gwaith o gyflawni WGOS 4, mae'r ddogfen hon yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer setiau data a gofynion offer.

Nid yw hyn yn cymryd lle barn na chyfrifoldeb proffesiynol.

Nid Llawlyfr Clinigol WGOS 4 yw hwn

Ar gyfer y fersiwn mwyaf diweddar o'r Llawlyfr Clinigol WGOS hwn

<https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/>

Rhybudd:

Efallai nad dyma'r fersiwn ddiweddaraf os gwnaethoch chi lawrlwytho neu argraffu'r ddogfen.

Ewch i <https://www.gig.cymru/sa/gofal-llygaid-cymru/> am y fersiwn gyfredol.

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae setiau data ar gyfer WGOS 4 yn cynnwys:
 - 1.1.1. **Setiau Data Clinigol:** Data gweinyddol, clinigol a data arall sydd ei angen i lywio llif cleifion yn llwybrau WGOS 4.
 - 1.1.2. **Setiau Data Gweithgaredd:** Data sydd ei angen i lywio hawliadau a wneir gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau WGOS 4.
- 1.2. Mae'r setiau data yn cefnogi'r gwaith o gyflawni WGOS 4. Nid ydynt yn cymryd lle barn neu gyfrifoldeb proffesiynol. Rhaid i gontractwyr a chyflawnwyr WGOS 4 fod yn ymwybodol o'r canlynol a chydymffurfio â'r canlynol:
 - 1.2.1. Gofynion cyfreithiol a rheoliadol
 - 1.2.2. Canllawiau NICE
 - 1.2.3. Canllawiau Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr
 - 1.2.4. Canllawiau Coleg yr Optometryddion

Setiau Data Clinigol

- 1.3. Cyfrifoldeb y cyflwynydd sy'n darparu WGOS 4 yw setiau data clinigol a gynhrychir yn WGOS 4.
- 1.4. Dylai optometrydd WGOS 4 gynnal profion sy'n berthnasol i anghenion claf a'r setiau data clinigol, gan ddefnyddio barn glinigol:
 - 1.4.1. Ni fwriedir i'r setiau data fod yn gyfyngiad ar gwmpas gofal.
 - 1.4.2. Nid yw'r setiau data yn awgrymu bod yn rhaid cynnal pob prawf ym mhob cyfnod gofal.
 - 1.4.3. Rhaid i ddata hŷn sy'n rhan o set ddata gael ei nodi'n glir (gyda'i ddyddiad) er mwyn helpu'r derbynydd i'w ddehongli.
- 1.5. Rhaid sicrhau bod setiau data clinigol priodol cyflawn ar gael ar fynediad i lwybr WGOS 4 ac ar bob pwynt yn y canlynol:
 - 1.5.1. pan mae gofal cleifion yn cael ei drosglwyddo o un darparwr i'r llall
 - 1.5.2. pan mae claf yn cael ei drosglwyddo o neu i ran arall o lwybrau retina meddygol a glawcoma WGOS 4
 - 1.5.3. Mae monitro hydrocsiclorocwin/clorocwin WGOS 4 yn cael ei berfformio
- 1.6. Gall methu â darparu setiau data clinigol cyflawn, heb gofnodi eithriad clinigol rhesymol, arwain at:
 - 1.6.1. Dychwelyd atgyfeiriad ar gyfer achosion unigol
 - 1.6.2. Mesurau a chymorth rheoli perfformiad
- 1.7. Bydd y contractwr yn sicrhau bod yr holl gyfarpar sydd ei angen ar gyfer WGOS 4 ar gael i'r cyflwynydd cyn cynnal unrhyw archwiliadau fel y gall y cyflwynydd gydymffurfio â'r set ddata glinigol.
 - 1.7.1. Rhaid i'r cyflwynydd fod yn fodlon bod yr offer yn bodloni safonau i sicrhau gofal a diogelwch i gleifion a'r cyhoedd, yn unol â Safonau Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi.
 - 1.7.2. Os bydd anawsterau technegol yn codi yn ystod archwiliad gyda darn o offer, bydd y cyflwynydd yn defnyddio barn glinigol i benderfynu a yw er budd pennaf y claf i ohirio cwblhau'r episod neu ddod â'r episod i ben heb y wybodaeth y byddai'r offer wedi'i darparu. Dylid nodi hyn yn glir yng nghofnod y claf ac unrhyw atgyfeiriad.

- 1.7.3. Rhaid i offer sydd ei angen i gynnal archwiliadau yn ôl yr angen i gyflawni setiau data clinigol fod ar gael bob amser pan fydd WGOS 4 yn cael ei ddarparu. Os nad oes offer ar gael naill ai oherwydd absenoldeb neu fod angen eu gwasanaethu, yna ni ellir darparu llwybr WGOS 4 perthnasol, a rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd o hyn. Mae gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i atal darpariaeth llwybr WGOS 4 gan bractis y contractwr hyd nes y ceir cadarnhad bod yr holl offer angenrheidiol ar gael.
- 1.8. Pan fo angen atgyfeiriad brys, ni ddylai ceisio cwblhau set ddata lawn fod yn rhwystr i reolaeth amserol Optometrydd WGOS 4 o'r claf. Yn yr achosion hyn, dylai'r cyflwynydd ddefnyddio ei farn glinigol i bennu'r archwiliadau clinigol a'r set ddata sy'n ofynnol er budd gorau'r claf. Dylid cadw manylion yr atgyfeiriad brys a wneir yng nghofnod y claf.

Setiau Data Gweithgaredd

- 1.9. Cyfrifoldeb y contractwr gyda chytundeb gwasanaeth WGOS 4 yw'r rhain.
- 1.10. Rhaid i cyflwynydd WGOS 4 sicrhau bod yr archwiliad clinigol yn cynhyrchu'r data sy'n ofynnol ar gyfer cwblhau'r setiau data gweithgaredd gan y contractwr.
- 1.11. Gall methu â darparu'r holl ddata sydd ei angen ar gyfer setiau data gweithgaredd arwain at:
- 1.11.1. taliadau'n cael eu gohirio neu ddim yn cael eu gwneud mewn achosion unigol.
- 1.11.2. mesurau gonestrwydd ariannol ar gyfer methiant parhaus y cyflwyniad.

2. Atgyfeiriad at Hidlo Retina Meddygol (MRF)

Set ddata glinigol

- 2.1. Data gweinyddol:
- 2.1.1. Dyddiad yr archwiliad(au)
- 2.1.2. Dyddiad cyfeirio
- 2.1.3. Dynodwyr Claf: Enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post (a rhif GIG, os yw'n hysbys)
- 2.1.4. Anghenion cyfathrebu cleifion: Iaith, cyfieithydd ar y pryd, fformat hygyrch
- 2.1.5. Dynodwyr Cyfeiriwr: Enw llawn, enw'r practis, cyfeiriad y practis, cod post y practis
- 2.2. Data ymchwiliadau clinigol:
- 2.2.1. Asesiad segment blaen y llygad gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig
- 2.2.2. Mesur IOP gan ddefnyddio tonometreg gwastatu cyswllt¹ (gan gynnwys amser)
- 2.2.3. Macwla a disg OCT (disgrifiad a delweddau), os ydynt ar gael.
- 2.2.4. Archwiliad Ffwdws gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig, gyda channwyll y llygaid ar led os oes angen (a ffotograffau ffwdws, os ydynt ar gael).
- 2.2.5. Craffter twll pin
- 2.2.6. Gwiriad RAPD
- 2.2.7. Craffter gweledol / golwg gyda sbectol gyfredol
- 2.3. Data ychwanegol:
- 2.3.1. Diagnosis gweithredol
- 2.3.2. Data arall fel y bo'n briodol, er enghraifft hanes, symptomau a meddyginiaethau perthnasol

¹ Tonometr gwastatu cyswllt lamp hollt wedi'i gosod neu â llaw sy'n gallu mesur pwysedd mewn-ociwlar yn anuniongyrchol trwy asesu'r grym sydd ei angen i lefelu arwynebedd wyneb y gornbilen a bennwyd ymlaen llaw.

3. Atgyfeiriad o WGOS 4 MR i Offthalmoleg

Set ddata glinigol

- 3.1. Data gweinyddol:
 - 3.1.1. Dyddiad yr archwiliad(au)
 - 3.1.2. Dyddiad cyfeirio
 - 3.1.3. Dynodwyr Claf: Enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post (a rhif GIG, os yw'n hysbys)
 - 3.1.4. Anghenion cyfathrebu cleifion: Iaith, cyfieithydd ar y pryd, fformat hygyrch
 - 3.1.5. Dynodwyr Cyfeiriwr: Enw llawn, cymwysterau MR, enw'r practis, cyfeiriad y practis, cod post y practis
- 3.2. Data ymchwiliadau clinigol:
 - 3.2.1. Aseiad segment blaen y llygad gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig
 - 3.2.2. Archwiliad Ffwdws gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig, gydag ymlediad disgyblion
 - 3.2.3. Ffotograffau Ffwdws (maes llydan os yw ar gael) (disgrifiad a delweddau wedi'u cynnwys)
 - 3.2.4. Awtoffloroleuedd, os yw ar gael (disgrifiad a delweddau wedi'u cynnwys)
 - 3.2.5. Macwla a disg OCT (disgrifiad a delweddau wedi'u cynnwys)
 - 3.2.6. Mesur IOP gan ddefnyddio tonometreg gwastatu cyswllt² (lamp hollt wedi'i osod, gan gynnwys amser)
 - 3.2.7. Craffter twll pin
 - 3.2.8. Gwiriad RAPD
 - 3.2.9. Craffter gweledol / golwg gyda sbectol gyfredol
- 3.3. Data ychwanegol:
 - 3.3.1. Alergeddau ac anoddefiadau cyffuriau
 - 3.3.2. Gofalwr
 - 3.3.3. Cyd-forbidrwydd, gan gynnwys gwybodaeth feddygol gyffredinol berthnasol
 - 3.3.4. Gyrru
 - 3.3.5. Ethnigrwydd
 - 3.3.6. Ffactorau risg:
 - 3.3.6.1. Diabetes
 - 3.3.6.2. Hanes teuluol o ddirywiad maciwlaid
 - 3.3.6.3. Clefyd fasgwlaidd ymylol
 - 3.3.6.4. Pwysedd gwaed uchel
 - 3.3.6.5. Ysmygu
 - 3.3.6.6. Steroidau (argroenol, a fewnanadlir, drwy'r geg)
 - 3.3.7. Symptomau a/neu effaith swyddogaethol, gan gynnwys effaith ar waith
 - 3.3.8. Diagnosis gweithio
 - 3.3.9. Triniaeth / rheolaeth flaenorol

² Tonometreg gwastatu cyswllt lamp hollt wedi'i gosod sy'n gallu mesur pwysedd mewn-ociwlar yn anuniongyrchol trwy asesu'r grym sydd ei angen i lefelu arwynebedd wyneb y gornbilen a bennwyd ymlaen llaw.

4. Rhyddhau o Offthalmoleg i Reoli Retina Meddygol (MRM)

Set ddata glinigol

- 4.1. Data gweinyddol:
 - 4.1.1. Dyddiad yr achwiliad(au)
 - 4.1.2. Dyddiad cyfeirio
 - 4.1.3. Dynodwyr Claf: Enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post, rhif GIG
 - 4.1.4. Anghenion cyfathrebu cleifion: Iaith, cyfieithydd ar y pryd, fformat hygyrch
 - 4.1.5. Dynodwyr Rhyddhawr: Enw llawn, rôl, Enw'r Uned Llygaid, Cyfeiriad yr Uned Llygaid, Cod Post yr Uned Llygaid
- 4.2. Diagnosis
- 4.3. Triniaeth
- 4.4. Y cyfnod dilynol nesaf
- 4.5. Data ymchwiliadau clinigol:
 - 4.5.1. CCT
 - 4.5.2. Mesur IOP gan ddefnyddio tonometreg gwastatu cyswllt³ (gan gynnwys amser)
 - 4.5.3. Disgrifiad o ddisg a macwla a delweddau OCT
 - 4.5.4. Craffter twll pin
 - 4.5.5. Craffter gweledol / golwg gyda sbectol gyfredol

5. WGOS 4 – Hydrocsiclorocwin/clorocwin (HCQ) Ceisiadau Monitro

Set ddata glinigol

- 5.1. Rhaid i geisiadau ar gyfer monitro HCQ WGOS gan ragnodwyr gynnwys:
 - 5.1.1. Y cyffur a ragnodir
 - 5.1.2. Hyd y presgripsiwn
 - 5.1.3. Presenoldeb neu absenoldeb ffactorau risg ychwanegol
 - 5.1.4. Presenoldeb neu absenoldeb cyflyrau retinol hysbys eraill
 - 5.1.5. Presenoldeb neu absenoldeb gwenwyndra HCQ blaenorol

6. WGOS 4 – Hydrocsiclorocwin/clorocwin (HCQ) Archwiliadau Monitro

Set ddata glinigol

- 6.1. Ar gyfer pob archwiliad:
 - 6.1.1. tomograffeg cydlyniad optegol parth sbectrol (SD-OCT)

³ Tonometr gwastatu cyswllt lamp hollt wedi'i gosod sy'n gallu mesur pwysedd mewn-ociwlar yn anuniongyrchol trwy asesu'r grym sydd ei angen i lefelu arwynebedd wyneb y gornbilen a bennwyd ymlaen llaw.

6.1.2. awtofflworoleuedd ffwdws (FAF) (bydd dal yn faes llydan os yw ar gael⁴ (neu fosaig lle nad oes galluedd maes llydan ar gael)

Yn ogystal, ar gyfer archwiliadau gyda phresenoldeb annormaleddau ar ddelweddu SD-OCT neu awtofflworoleuedd ffwdws:

6.1.3. profion maes gwelediad awtomataidd gan ddefnyddio protocol 10-2 neu 30-2 yn dibynnu ar leoliad yr annormaledd strwythurol

6.2. Lle nad yw profion monitro gofynnol i gwblhau'r set ddata glinigol yn bosibl, er enghraifft oherwydd cyd-patholeg ociwlar sy'n atal delweddu y gellir ei ddehongli, rhaid nodi hyn yng nghofnod y claf a'i gyfleu'n ôl i'r meddyg rhagnodi.

6.3. Mae'r Canlyniad / Cynllun Rheoli yn rhan o'r set ddata glinigol a rhaid ei gyfleu i'r meddyg rhagnodi gan ddefnyddio'r templed cenedlaethol fel y nodir isod:

DOSBARTHIAID	NODWEDDION CLINIGOL
DIM GWENWYNDRA	Dim annormaleddau sy'n awgrymu gwenwyndra wedi'u canfod ar SD-OCT neu FAF
GWENWYNDRA POSIBL	Canlyniad SD-OCT neu FAF sy'n nodweddiadol o retinopathi hydrocsiclorocwin, meysydd gwelediad arferol Claf yn cael ei gyfeirio at HES am ymchwiliad pellach
GWENWYNDRA PENDANT	Dau ganlyniad prawf gydag annormaleddau cyfatebol sy'n gyson â retinopathi hydrocsiclorocwin Gellir bodloni'r diffiniad hwn yn y senarios canlynol: <ol style="list-style-type: none"> SD-OCT a FAF sy'n nodweddiadol o retinopathi hydrocsiclorocwin Nai ll ai SD-OCT neu FAF sy'n nodweddiadol o retinopathi hydrocsiclorocwin, wedi'i gefnogi gan ganfyddiadau profion maes gwelediad sy'n cyfateb i'r diffyg anatomegol Claf yn cael ei gyfeirio at HES am ymchwiliad pellach

6.4. Rhaid trosglwyddo'r set ddata glinigol lawn i'r HES os gwneir atgyfeiriad

7. Atgyfeiriad o WGOS 2 i Hidlo Glawcoma (GF)

Set ddata glinigol

7.1. Data gweinyddol:

7.1.1. Dyddiad yr archwiliad (au)

7.1.2. Dyddiad cyfeirio

7.1.3. Dynodwyr Claf: Enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post (a rhif GIG, os yw'n hysbys)

7.1.4. Anghenion cyfathrebu claf: Iaith, cyfieithydd ar y pryd, fformat hygyrch

7.1.5. Dynodwyr Cyfeiriwr: Enw llawn, enw'r practis, cyfeiriad y practis, cod post y practis

7.2. Data ymchwiliadau clinigol:

⁴ Argymhellir sganiau FAF o fwy na 50 gradd ond mae sganiau gorgyffwrdd o lai na 50 gradd sy'n cynnwys y retina macwlaidd ychwanegol yn dderbyniol.

- 7.2.1. Aseiad segment blaen y llygad gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig a ffurfweddiad siambr blaen y llygad perifferol ac aseidiadau dyfnder, e.e. goniosgopi, prawf Van Herick neu OCT
- 7.2.2. Plot(iau) maes gwelediad canolog cysylltiedig â throthwy o berimedr awtomataidd
- 7.2.3. Mesur IOP gan ddefnyddio tonometreg gwastatu cyswllt⁵ (gan gynnwys amser)
- 7.2.4. Macwla a disg RNFL OCT, os yw ar gael
- 7.2.5. Aseiad nerf y llygad (gan gynnwys disg optig gan gynnwys cymhareb C/D a statws ymyl niwroretinol) ac archwiliad ffwdws gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig, gan ymledu cannwyll y llygad os oes angen, a delwedd OCT neu ben nerf y llygad, os yw ar gael
- 7.2.6. Craffter twll pin
- 7.2.7. Gwiriad RAPD
- 7.2.8. Craffter gweledol / golwg gyda sbectol gyfredol
- 7.3. Data ychwanegol:
 - 7.3.1. Diagnosis gweithio
 - 7.3.2. Data arall fel y bo'n briodol, er enghraifft hanes perthnasol, symptomau, meddyginiaethau a ffactorau risg hysbys

8. Atgyfeiriad o Hidlo Glawcoma (GF) i Offthalmoleg neu Reoli Glawcoma (GM)

Set ddata glinigol

- 8.1. Data gweinyddol:
 - 8.1.1. Dyddiad yr archwiliad(au)
 - 8.1.2. Dyddiad cyfeirio
 - 8.1.3. Dynodwyr Claf: Enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post (a rhif GIG, os yw'n hysbys)
 - 8.1.4. Anghenion cyfathrebu claf: Iaith, cyfieithu ar y pryd, fformat hygyrch
 - 8.1.5. Dynodwyr Cyfeiriwr: Enw llawn, cymwysterau glawcoma, enw'r practis, cyfeiriad y practis, cod post y practis
- 8.2. Data ymchwiliadau clinigol:
 - 8.2.1. Aseiad segment blaen y llygad gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig a ffurfweddiad siambr blaen y llygad perifferol ac aseidiadau dyfnder gan ddefnyddio:
 - 8.2.1.1. Aseiad dyfnder siambr blaen y llygad perifferol Van Herick, ynghyd â:
 - 8.2.1.2. Goniosgopi neu OCT blaen y llygad
 - 8.2.2. CCT
 - 8.2.3. Protocol profi 24-2 gydag algorithm Safonol SITA
 - 8.2.4. Mesur IOP gan ddefnyddio tonometreg gwastatu cyswllt⁶ (lamp hollt wedi'i osod, gan gynnwys amser)

⁵ Tonometr gwastatu cyswllt lamp hollt wedi'i gosod neu â llaw sy'n gallu mesur pwysedd mewn-ociwlar yn anuniongyrchol trwy asesu'r grym sydd ei angen i lefelu arwynebedd wyneb y gornbilen a bennwyd ymlaen llaw.

⁶ Tonometr gwastatu cyswllt lamp hollt wedi'i gosod sy'n gallu mesur pwysedd mewn-ociwlar yn anuniongyrchol trwy asesu'r grym sydd ei angen i lefelu arwynebedd wyneb y gornbilen a bennwyd ymlaen llaw.

- 8.2.5. Macwla a disg RNFL OCT
- 8.2.6. Asesiad nerf y llygad ac archwiliad ffwdws gan ddefnyddio biomicrosgopeg lamp hollt stereosgopig, gydag ymlediad kannwyll y llygad
- 8.2.7. Delweddau pen nerf y llygad (er enghraifft, delwedd pen nerf y llygad stereosgopig neu OCT)
- 8.2.8. Craffter twll pin
- 8.2.9. Gwiriad RAPD
- 8.2.10. Craffter gweledol / golwg gyda sbectol gyfredol
- 8.3. Data ychwanegol:
 - 8.3.1. Gofalwr
 - 8.3.2. Cyd-forbidrwydd (ociwlar a/neu systemig)
 - 8.3.3. Gyrru
 - 8.3.4. Alergeddau ac anoddefiadau cyffuriau
 - 8.3.5. Ethnigrwydd
 - 8.3.6. Meddyginiaethau (argroenol a/neu systemig)
 - 8.3.7. Ffactorau risg:
 - 8.3.7.1. Colli gwaed
 - 8.3.7.2. Trallwysiad gwaed
 - 8.3.7.3. Diabetes
 - 8.3.7.4. Hanes teulu o glawcoma
 - 8.3.7.5. Clefyd isgemia'r galon
 - 8.3.7.6. Meigrin
 - 8.3.7.7. Raynaud's
 - 8.3.7.8. Plygiant (er enghraifft, hypermetriopia neu myopia)
 - 8.3.7.9. Ysmygu
 - 8.3.7.10. Steroidau (argroenol, a fewnanadlir, drwy'r geg)
 - 8.3.7.11. Trawma
 - 8.3.8. Symptomau a/neu effaith swyddogaethol, gan gynnwys effaith ar waith
 - 8.3.9. Diagnosis gweithio
 - 8.3.10. Triniaeth / rheolaeth flaenorol

9. Rhyddhau o Offthalmoleg i Reoli Glawcoma (GM)

Set ddata glinigol

- 9.1. Data gweinyddol:
 - 9.1.1. Dyddiad yr archwiliad(au)
 - 9.1.2. Dyddiad cyfeirio
 - 9.1.3. Dynodwyr Claf: Enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post, rhif GIG
 - 9.1.4. Anghenion cyfathrebu claf: Iaith, cyfieithydd ar y pryd, fformat hygyrch
 - 9.1.5. Dynodwyr Rhyddhawr: Enw llawn, rôl, Enw Uned Llygaid, Cyfeiriad Uned Llygaid, Cod Post Uned Llygaid
- 9.2. Diagnosis
- 9.3. Triniaeth
- 9.4. Y cyfnod dilynol nesaf
- 9.5. Data ymchwiliadau clinigol:

- 9.5.1.CCT
- 9.5.2.IOPs perthnasol (gan gynnwys amser)
- 9.5.3.Disgrifiad o feysydd gwelediad a/neu SITA 24-2 (ynghyd â GPA, os yw ar gael)
- 9.5.4.Disgrifiad o asesiad segment blaen y llygad a ffurfweddiad siambr blaen y llygad perifferol ac asesiadau dyfnder
- 9.5.5.Disgrifiad o ddisg a/neu Macwla a disg RNFL OCT (gyda dadansoddiad o duedd GCL, os yw ar gael)
- 9.5.6.Craffter twll pin
- 9.5.7.Craffter gweledol / golwg gyda sbectol gyfredol

10. Atgyfeiriad gan Rheoli Glawcoma (GM) i Offthalmoleg

Set ddata glinigol

- 10.1. Fel ar gyfer *Atgyfeiriad o Hidlo Glawcoma (GF)* i set ddata *Offthalmoleg* gan ychwanegu:
 - 10.1.1. Dadansoddiad Dilyniant Glawcoma (GPA), os yw ar gael
 - 10.1.2. Dadansoddiad tuedd o haen celloedd ganglion (GCL), os yw ar gael a'r dewis arall o:
 - 10.1.3. Asesiad dyfnder perifferol siambr blaen y llygad Van Herick os nad yw cymwyseddau clinigol yr optometrydd GC yn cynnwys goniosgopi

11. Setiau data gweithgaredd WGOS 4

- 11.1. Cyfrifoldeb y contractwr gyda chytundeb gwasanaeth WGOS 4 yw'r rhain a rhaid eu cyflwyno fel rhan o'r hawliad ariannol ar gyfer pob cyfnod gofal o dan WGOS 4.
- 11.2. Rhaid i bob hawliad am episod WGOS 4 gynnwys y set ddata graidd ganlynol:

<i>Data</i>	<i>Pam ei fod yn angenrheidiol</i>
Cyflawnydd WGOS 4	Prosesu taliadau: i sefydlu bod person wedi cymhwyso ac wedi'i restru ar gyfer WGOS 4 wedi perfformio'r episod
Cyfeirnod unigryw claf - dynodwr unigryw'r contractwr ar gyfer y claf hwn.	Dilysu ar ôl talu: i alluogi'r contractwr a'r tîm PPV i gysylltu'r hawliad â chofnod clinigol y claf
Enw a Chyfeiriad y Claf	PREMs: gweinyddu PREMs yn ganolog heb ymglymiad practis Monitro gwasanaeth lefel uchel: mynediad
Dyddiad Geni'r Claf	Monitro gwasanaeth lefel uchel: mynediad
Ethnigrwydd y claf	Monitro gwasanaeth lefel uchel: mynediad
Cymhwysedd a symudedd claf - Angen clinigol wedi'i nodi a: Preswlydd yng Nghymru; a/neu Meddyg Teulu yng Nghymru	Prosesu taliadau: i sefydlu bod angen WGOS 4 ar y claf fel gwasanaeth yn y practis neu wasanaeth symudol
Math o apwyntiad	MR, Glawcoma, HCQ/Clorocwin
Ffynhonnell Gyswilt - ffynhonnell yr atgyfeiriad neu'r rhyddhau, e.e. ffynhonnell benodol - practis optometreg (enw) neu Wasanaeth Llygaid	Monitro gwasanaeth lefel uchel: gallu ac ansawdd

mewn Ysbyty (HES) (enw) y bwrdd iechyd; math o ffynhonnell eang (dienw) – rhagnodwr HCQ, gwasanaeth offthalmoleg o fewn y practis, practis optometreg GIG Lloegr, neu uned llygaid GIG Lloegr	
Dyddiad cyswllt - y dyddiad y derbyniwyd yr atgyfeiriad neu'r rhyddhau gan y practis, neu'r dyddiad y gwnaed atgyfeiriad o fewn y practis	Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros
Dyddiad y cynnig - dyddiad yr apwyntiad a gynigwyd i'r claf	Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros
Dyddiad yr apwyntiad - dyddiad yr episod gofal	Monitro gwasanaeth lefel uchel: amseroedd aros
Canlyniad - e.e. rhyddhau; ailadrodd; cyfeirio at HES; cyfeirio at wybodaeth, cyngor a chymorth anghlinigol	Gwerthuso gwasanaeth: effaith WGOS 4

- 11.3. Yn ogystal, rhaid i bob hawliad am episod o Retina Meddygol neu Glawcoma WGOS 4 gynnwys y set ddata ganlynol:

<i>Data</i>	<i>Pam ei fod yn angenrheidiol</i>
Dyddiad nesaf WGOS 4 (os cynlluniwyd)	Monitro gwasanaeth lefel uchel: galw ac amseroedd aros
Pellter deulygadog gorau craffter golwg (VA) a statws ardystiad	Gwerthusiad gwasanaeth lefel uchel (EHNA) <ol style="list-style-type: none"> Nifer yr achosion o nam ar y golwg y gellir ei ardystio yng Nghymru Angen poblogaeth Cyswllt mynediad cleifion i wasanaethau (WGOS3) i nifer y cleifion sy'n defnyddio WGOS 3 (rheol ar ffurflenni, os yw VA yn hafal i neu'n waeth na 6/60 yna nodyn yn nodi a yw ardystiad wedi'i gynnig i'r claf)
Ffactor Risg Iechyd - R1 - risg o niwed na ellir ei ddadwneud neu ganlyniad anffafriol sylweddol i'r claf oni welir y claf erbyn y dyddiad targed. R2 - risg o niwed gwrthdroadwy neu ganlyniad anffafriol os collid y dyddiad targed. R3 – dim risg o niwed sylweddol neu ganlyniad anffafriol.	Gwerthusiad gwasanaeth lefel uchel. Yn unol â data HES. Cymharu â data HES/caniatáu ar gyfer adrodd am lwybr gofal llygaid llawn mewn modd unffurf.

- 11.4. Yn ogystal, rhaid i bob hawliad am episod Retina Meddygol WGOS 4 gynnwys y set ddata ganlynol:

<i>Data</i>	<i>Pam ei fod yn angenrheidiol</i>
-------------	------------------------------------

Math o episod MR WGOS 4 - Hidlo Cyfeirio Rheoli	Monitro gwasanaeth lefel uchel: Mynediad a gweithgaredd
Math o afiechyd Corioretinitis Dirywiad y coroid Myopia dirywiol Maciwlopathi diabetig Retinopathi diabetig AMD Sych Nychdod etifeddol y retina Arall Achludiad fasgwlaidd y retina AMD Gwlyb	Data cyffredinolrwydd am fynychder defnyddwyr gwasanaeth (EHNA)

11.5. Yn ogystal, rhaid i bob hawliad am episod Glawcoma WGOS 4 gynnwys y set ddata ganlynol:

<i>Data</i>	<i>Pam ei fod yn angenrheidiol</i>
Math o episod glawcoma WGOS 4 - Hidlo Cyfeirio Rheoli	Monitro gwasanaeth lefel uchel: Mynediad a gweithgaredd
Math o afiechyd - POAG Glawcoma eilaidd Glawcoma ongl gaeedig Amheuaeth o glawcoma OHT Arall	Data lefel uchel am gyffredinolrwydd defnyddwyr gwasanaeth (EHNA)

11.6. Yn ogystal, rhaid i bob hawliad am episod HCQ WGOS 4 gynnwys y set ddata ganlynol:

<i>Data</i>	<i>Pam ei fod yn angenrheidiol</i>
Cyflwyno data - Y cyffur a ragnodwyd Hyd y presgripsiwn Presenoldeb neu absenoldeb ffactorau risg ychwanegol Presenoldeb neu absenoldeb cyflyrau retinol hysbys eraill Presenoldeb neu absenoldeb gwenwyndra HCQ blaenorol	Gwerthusiad o'r risg o wenwyndra HCQ/clorocwin. Sail dystiolaeth ar gyfer datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol/newid mewn meini prawf.
Data dosbarthiad - Dim gwenwyndra Gwenwyndra posibl Gwenwyndra pendant Monitro ddim yn bosibl	Gwerthusiad o'r risg o wenwyndra HCQ/clorocwin. Sail dystiolaeth ar gyfer datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol/newid mewn meini prawf.
Data canlyniad - Dim atgyfeiriad HES Cyfeiriwch at wenwyndra HES HCQ/clorocwin (posibl/pendant) Cyfeiriwch at HES arall	Gwerthusiad effeithiolrwydd gwasanaeth.

12. Offer

- 12.1. Rhaid i'r offer gorfodol sydd ei angen i gyflawni WGOS 1 a 2 fod ar gael ym mhob lleoliad lle mae Retina Meddygol WGOS 4 a/neu Glawcoma yn cael eu darparu.

<https://www.nhs.wales/sa/eye-care-wales/eye-care-docs/service-manual-wgos-1-2-pdf/>

Yn ogystal:

- 12.1.1. Ar gyfer Retina Meddygol WGOS 4: mae offeryn ffotograffiaeth ffwndws (e.e. ffwndws camera), OCT a thonomedr gwastatu cyswllt lamp hollt wedi'i gosod⁷ yn ofynnol.
- 12.1.2. Ar gyfer Hidlo Glawcoma WGOS 4: Mae angen OCT, dadansoddwr maes gwelediad sy'n gallu profi protocol profi 24-2 gydag algorithm safonol SITA, pachymedr, goniolens neu OCT blaen y llygad, a thonomedr gwastatu⁷ cyswllt lamp hollt wedi'i gosod.
- 12.1.3. Ar gyfer Rheoli Glawcoma WGOS 4: Mae angen OCT (gan gynnwys OCT blaen y llygad), dadansoddwr maes gwelediad sy'n gallu profi protocol profi 24-2 gydag algorithm safonol SITA, pachymedr, a thonomedr gwastatu⁷ cyswllt lamp hollt wedi'i gosod. Mae angen goniolens *neu* OCT blaen y llygad i'w defnyddio gan optometryddion GD a GH; mae'n ddewisol i'w ddefnyddio gan optometryddion GC.
- 12.2. Ar gyfer HCQ WGOS 4, yr offer gorfodol sydd ei angen ym mhob lleoliad yw: parth sbectrol OCT (SD-OCT), awtofflworoleuedd ffwndws (FAF) ac offeryn maes gwelediad awtomataidd sy'n gallu 10-2 a 30-2.

⁷ Gallu mesur pwysedd mewn-ociwlar yn anuniongyrchol trwy asesu'r grym sydd ei angen i wastadu arwynebedd y gornbilen a bennwyd ymlaen llaw.

Cipolwg ar offer WGOS 4:

Offer	Hidlo MR	Monitro MR	Hidlo Glawcoma	Monitro Glawcoma	Monitro hydrosciclorocwin
Pob un yn orfodol o WGOS 1 a WGOS 2	X	X	X	X	
Offeryn delweddu retinol	X	X			
OCT	X	X	X	X	
Tonometr gwastatu cyswllt lamp hollt wedi'i gosod	X	X	X	X	
Dadansoddwr maes gwelediad sydd â gallu profi protocol 24-2 gydag Algorithm safonol SITA			X	X	
Pachymedr			X	X	
Gonionlens Neu OCT blaen y llygad			X	Dim ond ar gyfer optometrydion sy'n gweithio ar lefel GH neu GD	
SD-OCT					X
FAF					X
Offeryn maes gwelediad awtomataidd sy'n gallu gwneud 10-2 a 30-2					X

13. Isafswm gweithgaredd

- 13.1. Bydd y Bwrdd Iechyd yn disgwyl lleiafswm o gapasiti gweithgaredd gan Gontractwr sy'n cyflawni gwasanaeth(au) WGOS 4.
- 13.2. Cytunir yn genedlaethol ar y lefel ofynnol o argaeledd, er bod gan Fwrdd Iechyd y gallu i wroddi wrth y lefel gweithgarwch capasiti gofynnol hwnnw, lle y cytunir arno gyda'r ROC yn y Grŵp Cydweithredol Gofal Llygaid.
- 13.3. Y capasiti gweithgaredd gofynnol cenedlaethol yw sero episod y mis, fesul gwasanaeth WGOS 4 a ddarperir gan bractis.
- 13.4. Gall Byrddau Iechyd dynnu cymeradwyaeth ar gyfer darparu gwasanaeth yn ôl o bractisiau optometreg WGOS 4 sy'n methu â bodloni unrhyw ofynion gorfodol a/neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r Llawlyfr WGOS 4.